Cymru Greadigol
Creative Wales



# Cronfa Sgiliau Creadigol 2022 – 2024

CREADIGOL

Cymry ifanc gobeithiol yn stiwdios Rockfield, rhan o brosiect Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru/Cronfa Sgiliau.
© Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.
Cydnabyddiaeth am y Llun Evan Dawson.

cymrugreadigol.cymru

# Cronfa Sgiliau Creadigol 2022 – 2024. Ar gip.

## Yn elwa

**27208**
Unigolion wedi'u hyfforddi

**305**
Cwmnïau wedi'u hyfforddi

## Unigolion

**1071**
Newydd-ddyfodiaid sy'n cael cefnogaeth yng Nghymru

**435**
Lleoliadau uwchsgilio sy'n cael eu cefnogi yng Nghymru

**200**
Cyfleoedd mentora neu gysgodi newydd

## Profiad Gwaith

**149**
Mentrau profiad gwaith newydd

**311**
Nifer y lleoliadau profiad gwaith

Cymru Greadigol
Creative Wales

## Hyfforddiant

**488**
Cyrsiau/sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu yng Nghymru

**155**
Yyfforddi/cyrsiau a ddarperir yn yr iaith Gymraeg

## Cydweithio

**53**
Adnoddau a grëwyd

**162**
Digwyddiadau a gynhaliwyd

**209**
Partneriaid prosiect (sefydliadau/cwmnïau)

# Ystadegau

Cefnogwyd **17** prosiect ar draws y sectorau sgrin, cerddoriaeth a thechnoleg ymgolli, animeiddio, a gemau






**26.5%** o unigolion a wnaeth elwa o'r prosiectau'n siaradwyr Cymraeg



Roedd **13.8%** o gyfranogwyr yn dod o gefndir lleiafrifol*

## Ar gip

**19.3%** o'r cyfranogwyr a wnaeth elwa o'r prosiectau anghenion ychwanegol





**22** bu gweithgarwch o'r 17 prosiect o fudd i unigolion o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru

*Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar 9 allan o 17 prosiect a ddarparodd data amrywiaeth cyflawn.

# Rhai uchafbwyntiau allweddol o'r llu o allbynnau a gyflwynwyd gan y 17 prosiect a gafodd gyllid CSF1

## Gêm – Academi Cyfryngau Cymru (MAC)

Fe wnaeth Prosiect y Gêm alluogi 30 o fyfyrwyr i astudio o leiaf un llwybr Dylunio Gêm yn MAC rhwng Chwefror 2023 a Mehefin 2024. Gan ddefnyddio cyrsiau BTEC fel sylfaen, dyfeisiwyd tair rhaglen astudio newydd yn benodol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed mewn Dylunio a Datblygu Gêm ar Lefelau 1, 2 a 3.

Caiff myfyrwyr gyfle i gwrdd â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, rhannu eu gwaith, dysgu am lwybrau gyrfa posibl yng Nghymru gyda rhai yn cael eu gwahodd i roi tro ar rai o'r gemau newydd cyn iddynt gael eu lansio i'r cyhoedd.

Dywedodd 91% o ddysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn barod i ddiwallu anghenion y diwydiant gemau o'u profiadau ar eu cwrs. Aeth 80% o'r myfyrwyr ymlaen i gyrsiau addysg bellach yn Ne Cymru a symudodd 10 myfyriwr ymlaen i gyrsiau uwch mewn Dylunio Gemau.

Yn ogystal, mae tri o'r myfyrwyr Lefel 3 wedi mynd i'r brifysgol i ddilyn cyrsiau sy'n gysylltiedig â gemau, mae un wedi gohirio eu mynediad i ennill mwy o brofiad gwaith ac mae dau wedi mynd i gyflogaeth ers gadael MAC.

## Academi Hollow Pixel – United Filmdom Ltd

Defnyddiodd Hollow Pixel lwybr prentisiaeth y Cyfryngau Rhyngweithiol Lefel 4 i ddarparu hyfforddiant pwrpasol yn Blender 3D. Defnyddiodd y chwe phrentis eu sgiliau newydd i gyflwyno prosiect animeiddio ar y cyd; gyda phob cyfranogwr yn cwblhau'r cwrs "Cymraeg yn y Gweithle" gyda Dysgu Cymru, gydag un prentis wedi sefyll TGAU yn y Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i'r cwrs.

Enillodd Hollow Pixel y Wobr Pencampwr Cyflogwyr gan Wobrau Prentisiaethau Cymru ar gyfer y prosiect hwn.

Mae pedwar o'r chwe phrentis bellach naill ai'n gweithio'n llawrydd neu mewn swyddi parhaol gyda chwmnïau animeiddio mawr cynhenid a byd-eang.

## Refocus – Hijinx

Darparodd y prosiect hyfforddiant cyfathrebu a gynlluniwyd i helpu unrhyw un sy'n gweithio yn y sector sgrin, mewn unrhyw adran, i wneud eu arferion gweithio yn fwy cynhwysol o bobl sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Mae'r cwrs undydd wedi'i ardystio gan Wasanaeth Ardystio DPP.

Cafodd yr hyfforddiant adborth cadarnhaol gan y sector;

*"Roedd y diwrnod ReFocus yn gyfle gwych i drafod syniadau a dysgu sut y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i wneud byd y cyfryngau yng Nghymru yn fwy cynhwysol."*
– Ciron Gruffydd, Rondo Media

*"Mae gweithio gyda Hijinx yn mynd i helpu pawb i wneud yn well, gwneud mwy a chynnig cyfleoedd gwych."*
– Hannah Raybould, Bad Wolf

*"Fe wnes i fwynhau dysgu o'r senarios a ddangoswyd gan actorion Hijinx ar y diwrnod, ac yn sicr fe wnaethant agor fy llygaid i'r hyn y mae cyfathrebu clir a chynhwysol yn ei olygu a sut i roi hyn ar waith."*
– Sioned Harries, TAC

*"Fe wnes i fwynhau'r cwrs ReFocus yn fawr, roedd yn gyfle rhyngweithiol i gael trafodaethau agored am bynciau anodd, a sut y gallwn fod yn gwneud mwy i gefnogi cynhwysiant yn y diwydiant."*
– Lowri Farr, Boom Cymru

## Y Gronfa Datblygu Rheolwr Cerddoriaeth – Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth (MMF)

Cyflwynodd MMF bum sesiwn hyfforddi fel rhan o'r prosiect hwn gan ddatblygu dau adnodd newydd yn yr iaith Gymraeg; Canllaw Cytundebau a Chanllaw Iechyd Meddwl MMF.

## Beacons Cymru – Beacons

Cyflwynodd Beacons Cymru pum rhaglen ar gyfer pobl ifanc sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth ledled Cymru: Resonant, Summit, Future Disrupter, TransForm Music, a Bŵts, gan gyrraedd bron i 6,000 o unigolion.

# Prif Allbynnau

## Cerdd y Dyfodol / Llwybrau Proffesiynol – **Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC)**

Daeth yr hyfforddiant a ddarparwyd gan CCIC ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru i ben gyda sesiynau recordio yn Stiwdios Rockfield yn Sir Fynwy a phrofiad perfformio byw yn y Corn Exchange yng Nghasnewydd, lle perfformiodd y cyfranogwyr eu cerddoriaeth gerbron cynulleidfa fyw. Gwahoddwyd detholiad o gyfranogwyr hefyd i berfformio eu gwaith yn Focus Wales, Wrecsam ym mis Mai 2024.

*"Roeddwn wrth fy modd â'r profiad o'r dechrau i'r diwedd, gyda'r holl help gan y mentoriaid a'r bobl yr oeddwn wedi fy amgylchynu â nhw. Roedd CCIC yn anhygoel wrth ein helpu gyda syniadau newydd a sgyrsiau a gawsom yn Rockfield, ac rwy'n gobeithio yn y dyfodol y bydd pobl sy'n penderfynu bod yn rhan o hyn yn cael profiad tebyg, oherwydd mae'n gyfle na allwch ei golli!"*

*"Roedd y profiad i recordio yn Rockfield Studios gyda CCIC yn anhygoel, cwrddais â llawer o bobl rydw i wedi gwneud cysylltiadau â nhw, ac wedi creu llawer o gyfleoedd i mi fy hun ar gyfer y dyfodol, a byddwn yn annog pobl i ymuno â phrosiectau yn y dyfodol yn CCIC gan obeithio y byddan nhw'n cael yr un canlyniad."*

## Games Developer Foundry Wales – **Iungo Solutions**

Cyflwynodd y Games Developer Foundry Wales (GDFW) pedwar cwrs hyfforddi Lefel 4 a 5 newydd i 54 o unigolion o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Cyflwynwyd y GDFW mewn tri cham ac roedd yn cynnwys modiwlau mewn Rhaglennu ar gyfer Datblygu Gemau, Dylunio Gemau, ac Entrepreneuriaeth.

## Sesiynau Sgiliau ar gyfer Lleoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad – **Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth (MVT)**

Cyflwynodd MVT bedair sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad ar draws pedwar rhanbarth yng Nghymru; Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Wrecsam.

## Cynaliadwyedd Digidol Creadigol, Pobl, Llwybrau, Rhagolygon – **M-Sparc**

**Llwybr Sero Net**
Yng Ngogledd Cymru, cyflwynodd M-Sparc lwybr Sero Net, cwrs llythrennedd carbon achrededig ar gyfer cwmnïau yn y sector Creadigol-Digidol sydd wedi'i gynllunio i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o allyriadau carbon, newid yn yr hinsawdd, a'u heffeithiau cysylltiedig.

*"Deall eich ôl troed carbon personol a phroffesiynol yw'r cam cyntaf y gallwch ei gymryd i wneud newid cadarnhaol. Mae'r cwrs hwn yn rhoi'r offer i chi allu gwneud hynny."*
– PigTown

*"Roedd y Gweithdy Llythrennedd Carbon yn gynhwysfawr, yn addysgiadol ac yn oleuedig. Roedd Rhodri'n diwtor gwybodus, gafaelgar iawn a gyflwynodd y sesiwn yn effeithlon ac yn gryno. Byddwn yn argymell y gweithdy i unrhyw un sy'n ceisio lleihau eu hôl troed carbon - naill ai fel unigolyn neu fel busnes."*
– CwmniDa

Darparodd llinyn Academi Sgiliau M-Sparc leoliadau â thâl mewn busnesau sgrin, cynnwys digidol a cherddoriaeth yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn i 10 o raddedigion diweddar. Yn dilyn eu lleoliadau gwaith, aeth pum cyfranogwr yn syth i gyflogaeth o fewn y sector, parhaodd dau fel gweithwyr llawrydd, aeth un ymlaen i Brentisiaeth Radd gyda'r cwmni lle buont ar leoliad, ac aeth dau i'r Brifysgol i ddatblygu eu sgiliau mewn animeiddio.

## Y Rhaglen Beilot Busnes ac Arweinyddiaeth – **NFTS Cymru**

Darparodd NFTS Cymru hyfforddiant pwrpasol i arweinwyr, rheolwyr a chynhyrchwyr sy'n gweithio yn y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru.

*"...Roedd y cwrs yn cynnig amrywiaeth o bynciau sy'n ymdrin â phob agwedd ar redeg cwmni teledu a sut i baratoi'ch hun yn ymarferol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd yn y broses gynhyrchu. Rwy'n teimlo fy mod yn cerdded i ffwrdd o'r cwrs gyda llawer mwy o wybodaeth a hyder ac wedi cael cyngor amhrisiadwy gan weithwyr proffesiynol y diwydiant na fyddwn wedi cael y cyfle i'w cwrdd fel arall. Mae wedi rhoi'r hyder i mi fynd i mewn i'r bennod nesaf yn fy ngyrfa gyda hyder."*
– Llyr Morus, Cynhyrchydd

# Prif Allbynnau

## Rhaglen Datblygu HOD's yng Nghymru – **ScreenSkills**

Cefnogodd y cynllun Datblygu HODs yng Nghymru gan ScreenSkills benaethiaid i gysgodi a gweithio ochr yn ochr â HODs presennol ar gynyrchiadau HETV gan eu galluogi i ennill profiad, yn ogystal â chael y credyd HETV holl bwysig ar gyfer eu CV.

Ers hynny, mae'r cyfranogwr Peter Darney wedi mynd ymlaen i gyfarwyddo ffilm fer a ddangoswyd ar noson agoriadol Gŵyl Ffilm Gwobr Iris ac fe'i enwebwyd am wobr am y ffilm nodwedd orau sef 'G Flat'. Canmolodd Peter y cynllun a dywedodd fod yr hyn yr oedd wedi'i ddysgu yn ystod ei leoliad ar Lost Boys and Fairies wedi ei helpu i ddatblygu fel cyfarwyddwr.

## Grymuso Gweithwyr Creadigol Llawrydd – **Bectu/Cult Cymru**

Gwelodd y prosiect hwn gyfres o adnoddau Iechyd Meddwl yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi, gan gynnwys dau becyn cymorth Iechyd Meddwl a Lles cynhwysfawr – un ar gyfer gweithwyr creadigol, ac un ar gyfer arweinwyr tîm creadigol.

## **rad Cymru Wales – TRC**

Darparodd rad Cymru Wales leoliadau wyth mis â thâl o fewn cwmni cynhyrchu teledu annibynnol Cymreig ar gyfer chwech unigolyn o gefndiroedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Cynhaliwyd y lleoliadau gan;

—Boom Cymru TV Cyf

—South Shore

—Chwarel Cyf

—Rondo Media Cyf

—Stiwdios y BBC – Rhaglenni Dogfen

—Stwidios y BBC – Dramâu

—Gorilla

## Hyfforddiant ar gyfer y Dyfodol – **Sgil Cymru**

Fe wnaeth Hyfforddiant ar gyfer y Dyfodol ddarparu cyfleoedd i 130 o unigolion sydd am ddod o hyd i waith o fewn y sector sgrin neu ddatblygu oddi mewn iddo. Roedd hyn yn cynnwys 44 o gyfleoedd uwchsgilio.

## Cyflymydd Gemau'r DU – **IndieLab**

Cymerodd pum cwmni gemau o Gymru ran yn y cyflymydd gemau;

—Dragon Scale Studios Ltd – Caerdydd

—DragonfiAR Limited – Caerdydd

—Evil Owl Studios – Abertawe

—Rat Magic Games – Wrecsam

—Space Colony Studios – Caerdydd

*"Mae'r broses gyffredinol wedi bod yn wych. Mae wedi fy helpu i ganolbwyntio ar y gêm a'r hyn y mae angen i mi ei adeiladu i gael cefnogaeth y cyhoeddwr."*
– Alan Boyce, Sylfaenydd Evil Owl Studios

*"Anhygoel o graff o safbwynt ffyrdd o reoli tîm, a sut i gael y gorau ohonynt. Mae'n ddefnyddiol i sylweddoli ar ba gam o'r broses yr ydych chi, a faint o waith sydd angen ei wneud yn y dyfodol agos. "*
– Sam Ward, Cyd-sylfaenydd DragonfiAR

## Cyflymydd Teledu'r DU – **Indielab**

Cymerodd Chwarel a Postcard Productions ran yn rhaglen Cyflymydd Teledu 2023;

*"Gwnewch gais nawr! Mae'n wych. Yn enwedig os ydych chi ar y groesffordd honno gyda'ch cwmni lle mae angen i chi dyfu."*
– Chwarel

*"Mae'n hynod werthfawr - hollol hanfodol i gynhyrchwyr a sylfaenwyr cwmnïau annibynnol. Mae'n helpu i roi'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol mewn persbectif. Mae'n rhoi'r amser, y gofod a'r rhwydwaith i chi gymryd cam yn ôl o waith dydd i ddydd y busnes a chanolbwyntio ar y weledigaeth a'r strategaeth wrth symud ymlaen."*
– Postcard Productions

# Cronfa Sgiliau Creadigol 2022 – 2024

Nod y Gronfa Sgiliau Creadigol yw meithrin talentau newydd a phresennol trwy hyfforddi ac uwchsgilio unigolion ar draws sawl sector creadigol, gan gynnwys sgrin, cerddoriaeth, technoleg ymgolli, animeiddio a gemau.

Lansiwyd rownd gyntaf y gronfa sgiliau i gefnogi prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn y 10 maes blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol;

—Hyfforddiant Busnes ac Arweinyddiaeth

—Cefnogi Talentau

—Gwella Recriwtio Amrywiaeth a Chynhwysol

—Lleoliadau a Chyfleoedd Lefel Mynediad

—Uwchsgilio Lleoliadau a Chyfleoedd

—Addysg a'r Cwricwlwm Newydd

—Ymwybyddiaeth o Yrfaoedd

—Arloesi

—Pontio'r Bwlch rhwng Addysg Bellach/Uwch a'r Diwydiant

—Lles y Gweithlu a Chefnogaeth i Weithwyr Llawrydd

SGILIAU

# Funding Awarded 2022 – 2024

Dyfarnwyd mwy na £1.5M o gyllid Llywodraeth Cymru i'r 17 prosiect canlynol i ddarparu prosiectau sgiliau a hyfforddiant o ansawdd uchel;

—Cronfa Datblygu Rheolwr Cerddoriaeth wedi ei ddarparu gan Music Manager Forum (MMF)

—Sesiynau Sgiliau ar gyfer Lleoliad Cerddoriaeth Llawr Gwlad wedi eu darparu gan yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth

—Beacons Cymru a ddarperir gan Beacons

—Rhaglen Beilot Busnes ac Arweinyddiaeth a ddarperir gan NFTS Cymru

—Academïau Sgrin Cymru sy'n parhau i gael eu harwain gan Brifysgol De Cymru mewn partneriaeth â Screen Alliance Wales a Phrifysgol Bangor

—Mae ReFocus yn brosiect gan Hijinx

—Hyfforddiant ar gyfer y Dyfodol gan Sgil Cymru

—Rhaglen Datblygu HODS yng Nghymru gan ScreenSkills

—Games Developer Foundry Wales a ddarperir gan iungo Solutions

—Gêm wedi ei chyflwyno gan Media Academy Cymru

—Hollow Pixel Academy gan United Filmdom Ltd

—Dyfodol Cerddoriaeth / Llwybrau Proffesiynol a ddarperir gan Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

—Cynaliadwyedd Digidol Creadigol, Pobl, Llwybrau, Rhagolygon a gyflwynir i chi gan M-SParc

—Grymuso Gweithwyr Llawrydd Creadigol a ddarperir gan Bectu a Cult Cymru

—Darparodd Indielab ddau brosiect, UK Games Accelerator a UK TV Accelerator

—rad Cymru Wales gan TRC

ARIANNU

OGL
© Hawlfraint y Goron 2025, WG51665